

CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Fawrth 5ed Fai yn Neuadd Rhydlewys**

Yn bresennol Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd) Cyng. Osian Davies, Cyng. Emyr Jones,
Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Rob Jones, Cyng. Sian Williams, Cyng. Carol Davies,
Cyng. Ceri Jones, Cyng. Mark Davies

Clerc Helen Horscroft

1. Ymddiheuriadau

Cyng Llyr Evans, Cyng. Teifi Evans

2. Datgan Diddordeb

Neb

3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf

Cafodd pawb gopi o Gofnodion mis Ebrill – gofynwyd i'r Clerc ychwanegu :

Dyddiad o'r cofnodion ar y top.

Cynnigodd Cyng. Emyr Jones bod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Cyng. Ceri Jones.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

7.23 Eisiau ychwanegu sylwadau.

12.1 Eisiau danfon ail adroddiad i CLIC am hewl Coedybryn – ma sefyllfa'r cerrig ar y ffordd wedi gwaethgu . Mae'n edrych fel bod y coeden yn suddo.

5. Materion y Cynghorydd Sir

Sdim materion i drafod ynglyn a'r Cyngor Sir.

Daeth Steve Richards o Heartbeat UK lawr a 9 'Bleed Kit' . Mae 8 wedi cae ei rhoi yn y bocsys ac mae gennym 1 dros ben. Buodd Maldwyn a Emyr rownd yr ardal yn rhoi'r citiau mewn yn y bocsys. Roedd ddim digon o le yn y bocsys yn Coedybryn , felly tynnwyd allan y gwresogydd.

Uchel Siryf Abertawe oedd y person cyntaf i ddod mewn a'r citiau. Cyngor Cymuned Troedyr aur yw'r cyngor cynta i ychwanegu'r citiau yn yr ardal. Mae angen cofrestru'r citiau ar wefan bleedmap.co.uk. Ma gan bob cit rhif cyfresol.

Pawb i edrych yn y bocsys erbyn cyfarfod nesa i weld a oes popeth ynddo. Dyle pob bocs cynnwys bag gyda offer meddygol.

Mae Steve yn cynnig hyfforddiant i glybiau/cymdeithasau lleol. Bydd un sesiwn yn y prynhawn ac un yn y nos. Y clerc i gysylltu a Heartbeat UK am manylion Steve.

6. Cynllunio/Planning

Dim ceisiadau.

7. Gohebiaeth

7.1 Un Llais Cymru – Hyfforddiant am ddim i Gynghorwyr – 2026-2027.

7.2 Un Llais Cymru – Y Llais, rhifyn 1.

7.3 Cyngor Ceredigion – ateb wrth CLIC – Cludiant plant ysgol.

7.4 Llythyr ymddiswyddo wrth Cyng. Teifi Evans.

7.5 Cyngor Cymuned Llandysiliogogo am gwrdd lan i drafod uno dai gilydd.

7.6 Un Llais Cymru – Y Llais, rhifyn 2.

7.7 Cyng. Maldwyn Lewis – Critical Bleed Kits – manylion cofrestru.

7.8 Un Llais Cymru – E Bwletin, rhif 23.

7.9 Neuadd Ffostrasol – Anfoneb llogi neuadd - £60.00

7.10 11.05.26-17.05.26 – Mental Health Awareness Week.

8. Cyllid

8.1 Gwnaeth Cyng. Mark Davies a Cyng. Rob Jones arwyddo sieciau i :

Clerc £274.54 ; HMRC £67.60 ; Un Llais Cymru £42 (talwyd yn Ebrill); Un Llais Cymru £100; Ashmole & Co £99; Clear Insurance Renewal £1282.03; Sioe Tivyside £100.

Mae Cyng. Sian Williams, Cyng. Osian Davies, Cyng. Carol Davies a'r clerc Helen Horscroft wedi cael ei rhoi ar gyfrif y banc fel llofnodwyr awdurdodedig. Ishe trefnu cofrestru Bancio ar Lein nesaf.

9. Cyfansoddiad

9.1 Fel trafodwyd a chytunwyd yn y cyfarfod, mae eisiau'r clerc ddiweddarau'r cyfansoddiad.

10. Awdit

10.1 Y Clerc i fynd a gwaith papur yr awdit i Gwyn unwaith ddaw Datganiad Banc y cyfrif cynilo.

11. Blodau

11.1 Mae'r tywydd rhy oer i blannu blodau eto.

12. Cinio Blynnyddol

12.1 Mae eisiau trefnu'r cinio blynnyddol ar y 12fed o Fehefin. Y Clerc i fwcio'r Bryn a'r Bragdy neu'r Daffodil. Bydd eisiau gwahodd Gwyn a'r Cyng. Teifi Evans.

13. BCCIT

13.1 Geith hwn i drafod mis nesaf.

14. Trafod ffurflenni Grant

14.1 7.6.22 – Cyfansoddiad wedi cael ei newid fel bod y Cyngor gallu talu hyd at £1000 bob blwyddyn tu allan i ffenest grantiau mis Ionawr.

14.2 Mae eisiau'r Clerc gynllunio taenlen i ddangos faint sy'n mynd allan o bob adran 'Preasept'.

15. Materion Ardai

15.1 Rhydlewis – Arwyneb yr hewl o'r capel i'r cigydd yn suddo. Eisiau rhoi adroddiad i CLIC – what3words – tutorial.rings.boasted.

15.2 Mae Taith Maelona ar gyfer codi arian i Eisteddfod y Garreg Las ar Ddydd Sul Mai 3ydd.

15.3 Coedybryn – Fel y trafodwyd ar ddechre'r cyfarfod, eisiau'r Clerc rhoi adroddiad arall i CLIC am y goeden a cerrig sydd ar yr hewl.

15.4 Buodd Talwrn y Beirdd yn y neuadd ar nos Fawrth 21.04.26.

15.6 Daeth tipyn o ddyrfa i'r neuadd ar 02.05.26 pan oedd gwenynwyr yno.

15.7 Ma'r golau newydd wedi cal i rhoi i fyny yn y Neuadd.

15.8 Daeth Owain Thomas yn drydydd yng nghystadleuaeth 'Bricwyr Cymru'.

15.9 Penrhiwpaol - Mae arwydd ar goll yn Maesllyn – ar dop Gernos.

15.10 Croeslan – dim

15.11 Ffostrasol – Dyw golau tu allan i GM Engineering ddim yn gweitho. Mark i ddanfon what3words ymlaen i'r clerch.

15.12 Mae ysgol Bro Teifi yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Ynys Mon ar ddiwedd y mis – pob lwc iddynt.

15.13 Ma tim leuenctid Rygbi Castell Newydd Emlyn yn chwarae St Clears cyn bo hir yn Cystadleuaeth Cwpan Sir Gar – pob lwc iddynt.

15.14 Mae tim Rygbi Ysgol Bro Teifi wedi ennill plat ysgolion Cymru – da iawn .

16. Cyfarfod Nesaf

16.1 Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol, nos Fawrth 2ail o Fehefin 2026 am 7.30.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.



Arwyddwyd (y Cadeirydd)

2/6/2026

Dyddiad